WYNEB Y CLAF

# CYFLEOEDD GWIRFODDOLI GYDA CHLEIFION YN HOSBIS TŶ'R EOS

**Diolch yn fawr am ddangos diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Hosbis Tŷ'r Eos.**

Mae gwirfoddolwyr yn rhan annatod o dîm yr hosbis ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynllunio i roi cipolwg i chi ar y cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol sydd ar gael gennym.




Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

**Gwirfoddolwr Cleifion Mewnol**
Mae’r dyletswyddau y bydd gofyn i chi eu cyflawni yn dibynnu’n llwyr ar anghenion ein cleifion. Fel arfer, gallech helpu i wneud diodydd, gweini prydau, cymryd rhan mewn gweithgareddau fel siarad, darllen a chrefftau. Bydd dyletswyddau eraill yn cynnwys tacluso, glanhau ac ailstocio’r gegin cleifion mewnol. Mae’r rôl hon yn atebol i’r nyrs sy’n gyfrifol am y ward, a fydd yn rhoi arweiniad a chyfarwyddiadau llawn ar bob shifft.

**Gwirfoddolwr Gyrrwr Cleifion**
Fel Gyrrwr Cleifion, byddwch yn cludo cleifion i’w cartrefi ac oddi yno er mwyn iddynt allu mynd i’n Canolfan Lles. Efallai y bydd angen ychydig bach o gymorth ar rai cleifion i’w helpu i gyrraedd y car neu ambiwlans yr hosbis – rhoddir hyfforddiant llawn ar gyfer y rôl hon.

**Cynorthwyydd Gyrrwr Cleifion**
Byddwch yn cefnogi’r Gyrrwr Cleifion yn bennaf i gludo cleifion i’r hosbis ac oddi yno gan sicrhau eu hiechyd a’u lles. Rhoddir hyfforddiant llawn ar gyfer y rôl hon.

**Gwirfoddolwr Crefftau a Gweithgareddau**
Mae’r rôl hon yn ymwneud â darparu gweithgareddau llesiant i’n holl gleifion, naill ai’n gweithio mewn grŵp neu gydag unigolyn. Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o gyfyngiadau cleifion a gallu addasu gweithgareddau sydd wedi’u cynllunio yn unol â hynny. Gall gweithgareddau gynnwys peintio, gwneud cardiau, creu llyfrau neu focsys cofio, trefnu blodau, chwarae gemau, gwau, crosio a chynnal cwisiau. Nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr.

**Gwirfoddolwr Therapydd Cyflenwol**
Gyda chymorth gan y timau clinigol, fel therapydd cymwysedig, byddwch yn darparu therapïau y mae mawr eu hangen i gleifion, eu teuluoedd a’u gofalwyr i helpu i dawelu eu hemosiynau, lleddfu gorbryder a chynyddu eu hymdeimlad cyffredinol o iechyd a lles.

**Triniwr Gwallt neu Therapydd Harddwch Gwirfoddol**
Gall ychydig o faldod wneud gwahaniaeth mawr i hunan-barch ein cleifion a’u lefelau hyder. Os ydych chi’n driniwr gwallt neu therapydd harddwch profiadol a chymwys gydag ychydig oriau i’w sbario bob wythnos, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Mae pob rôl wirfoddol yn gofyn am y lefel uchaf o gyfrinachedd. Preifatrwydd, urddas a chysur cleifion yw ein prif flaenoriaethau.**

# CYFLEOEDD GWIRFODDOLI
## GYDA CHLEIFION

Nid yw pob rôl wedi’i rhestru, ac os oes gennych chi gymhwyster proffesiynol neu sgil arall a allai fod o fudd i’r hosbis yn eich barn chi, mae croeso i chi gysylltu â’r Tîm Gwirfoddoli ar 01978 316800 neu anfon neges e-bost at volunteering@nightingalehouse.co.uk .

O ran ymrwymiad, rydym fel arfer yn chwilio am shifft pedair awr ar unrhyw ddiwrnod penodol, unwaith yr wythnos, ond mae hyn yn hyblyg a gellir trafod eich argaeledd yn y cyfweliad.

**Dyma feini prawf recriwtio hanfodol eraill:**

- Mae pob rôl yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Dau eirda; gall y rhain fod yn eirda proffesiynol neu eirda cymeriad.





***"Gweithio mewn amgylchedd mor gyfeillgar a gofalgar, lle mae'r gwirfoddolwyr yn cael eu trin fel aelodau gwerthfawr o dîm yr hosbis."***

- Gwirfoddolwr Hosbis

**I gael mwy o wybodaeth am y rolau gwirfoddoli, cysylltwch â:**

Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

**01978 316800**

**NIGHTINGALEHOUSE.CO.UK**